**Rhaglen Newid Hinsawdd**

**Ymgysylltu Ysgolion Uwchradd – Ymgyrch Un**

<table>
<tr><td>Testun: Newid Hinsawdd</td><td colspan="2">Hyd: 1 awr</td></tr>
<tr><td colspan="3">Teitl y Sesiwn: Ynni</td></tr>
<tr><td colspan="3">Nodau’r Sesiwn: Deall ffynonellau ynni gwahanol, adnewyddadwy yn erbyn ffynhonnell arall a’r effeithiau gwahanol ar y blaned.<br><br>Tra hefyd yn deall sut i fod yn effeithlon o ran ynni yn yr ysgol/cartref a sut i gymryd camau.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Themâu: Newid hinsawdd; Ynni; cymryd cyfrifoldeb am y blaned; cymryd camau gweithredu.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cynllun Sesiwn Enghreifftiol ar gyfer CA3/4:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyflwyniad i sesiwn a chwarae’r ddau fideo, mae’r ddau fideo yn cynnwys set o gwestiynau yr un. Ar gyfer CA4 rhannu dau set o gwestiynau i herio pa gwestiynau sydd yna i bob fideo.<br><br>‘Cyflwyniad i newid yn yr hinsawdd - Young People’s Trust for the environment-<br>http://ypte.org.uk/videos/climate-change (6.15mun)<br><br>Cyflwyno’r cwestiynau hyn i’r myfyrwyr i’w hateb tra’n gwylio’r fideo cyntaf.<br><br>- Sut mae tywydd yn cael ei ddisgrifio yn y fideo?<br>Mae’r tywydd yr hyn sy’n digwydd bob dydd y tu allan i’ch ffenestr.<br><br>- Sut mae hinsawdd yn cael ei ddisgrifio yn y fideo?<br>Mae’r hinsawdd mewn ardal benodol dros gyfnod o amser maith.<br><br>- Beth yw un ffordd o fesur hinsawdd?<br>Hinsawdd normal<br><br>- Enwch y 3 tanwydd ffosil<br>Glo, Olew a Nwy<br><br>- Sut allwn ni oresgyn newid hinsawdd?<br>- Diffodd y goleuadau<br>- Diffodd offer yn y wal<br>- Gwisgo haen ychwanegol yn hytrach na throi’r gwres i fyny,<br>- Cau drysau a ffenestri i gadw’r gwres i mewn a’r oerni allan.<br>- Lleihau gwastraff bwyd.<br>- Teithio yn defnyddio mwy o gludiant cyhoeddus.<br><br>‘Achosion ac Effeithiau Newid Hinsawdd’ - National Geographic<br>https://www.youtube.com/watch?v=G4H1N_yXBiA (3.04mun)</td><td>15 mun</td></tr>
</table>

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| Cyflwyno'r cwestiynau hyn i'r myfyrwyr i'w hateb tra'n gwylio'r **ail fideo.**<br><br>- **Pa nwyon tŷ gwydr sydd yna?**<br>Anwedd Dŵr, Carbon Diocsid, Ocsid Nitraidd, Methan, Clorofflworocarbon.<br><br>- **Beth sy'n digwydd pan mae yna ormod o'r nwyon tŷ gwydr hyn yn yr atmosffer?**<br>Mae mwy o wres yn cael ei ddal, sy'n cynyddu tymheredd y ddaear.<br><br>- **Mae Newid Hinsawdd yn effeithio ar pa bedwar peth?**<br>Bwyd, cefnforoedd, tywydd, iechyd.<br><br>- **Beth sy'n achosi i lefelau'r môr godi?**<br>Haenau o rew yn toddi.<br><br>- **Sut allwn ni oresgyn newid hinsawdd?**<br>Rhoi'r gorau i losgi tanwydd ffosil. Newid o danwydd ffosil i ffynonellau adnewyddadwy (gwynt, solar, hydro, llanw, bioynni, geothermal), yn lleihau faint o nwyon tŷ gwydr rydym yn ei gynhyrchu.<br><br>Darparwch a chrynhowch yr atebion ar ddiwedd y fideo.<br><br>**Cyflwyniad byr i Ynni Adnewyddadwy ac Na Ellir ei Adnewyddu:**<br>https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/z6wwxnb/articles/ztxwqty (1:01) | |
| Mae'r PowerPoint yn darparu gwybodaeth ar ynni adnewyddadwy ac na ellir ei adnewyddu, effeithlonrwydd o ran ynni ac edrych ar lunio camau y gallwch chi eu cymryd fel dosbarth.<br><br>Gellir dod o hyd i'r PowerPoint ar wefan CSFf, gyda dogfennau ychwanegol ar gyfer y wers.<br><br>Mae'r tasgau isod wedi eu cynnwys o fewn y PowerPoint: | 40 munud |
| **TASG 1 -** Dysgwyr i lenwi'r daflen waith ar fanteision ac anfanteision ynni adnewyddadwy - dogfen ychwanegol gyda'r atebion.<br><br>**TASG 2 -** Cwblhau Asesiad Amgylcheddol, cyfarwyddiadau yn y ddogfen.<br><br>Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau ar wefan CSFf. | 10 mun<br><br>30 mun |

**Adnoddau Ategol:**

1. **Canllaw i Newid Hinsawdd ar gyfer Plant –** https://climatekids.nasa.gov/kids-guide-to-climate-change/

2. **Sut y gallwn addasu i newid hinsawdd - Ar draws y byd? CA4 (5.15mun)** Sut y gallwn addasu i newid hinsawdd - ar draws y byd? | Dechreuwch yma gydag Addasu i Hinsawdd (youtube.com)

3. **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (2.40 munud)** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (youtube.com)

4. **Greta Thunberg TedXStockhom (11.02mun) Tachwedd 2018** https://www.ted.com/talks/greta_thunberg_the_disarming_case_to_act_right_now_on_climate_change

5. **Annwyl Yfory – pobl yn addo cymryd camau ar newid hinsawdd** https://www.deartomorrow.org/type/letter/